

CYNGOR SIR YNYS MÔN

CYFARFOD:	Cyngor Sir
DYDDIAD:	26 Hydref 2021
TEITL:	Protocol Cyfarfodydd Aml-Leoliad (Hybrid)
ADRODDIAD GAN:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Mabwysiadu Protocol ar gyfer cynnal Cyfarfodydd Hybrid
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro (est 2568) lbxcs@ynysmon.gov.uk

1. ARGYMHELLION

- 1.1. Mabwysiadu y ddogfen yn **Atodiad 1** o'r adroddiad hwn fel Protocol ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid; a chaniatáu i swyddogion barhau â'r gwaith o ganfod datrysiadau technegol er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd o'r fath.
- 1.2. Bod unrhyw newidiadau i'r Protocol, sydd y tu hwnt i awdurdod presennol y Swyddog Monitro o dan adran 3.5.3.6.6 yn y Cynllun Dirprwyo, yn cael eu gwneud gan y Swyddog Monitro, ond dim ond â chydysyniad penodol pob Arweinydd Grŵp. Bydd unrhyw newidiadau heb gydsyniad o'r fath yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn yn gyntaf.
- 1.3. Tra bod y cyfyngiadau Covid yn dal i fod mewn grym, bydd unrhyw gyfarfodydd/sesiynau briffio a sesiynau hyfforddi/datblygu'n parhau i gael eu cynnal yn rhithiol.

2. CRYNODEB

- 2.1. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno gofyniad statudol i gynnal cyfarfodydd hybrid yn achos holl gyfarfodydd a phwyllgorau'r Cyngor. Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod cyfarfodydd hybrid yn golygu cyfarfodydd lle mae rhai aelodau/swyddogion/y cyhoedd yn mynychu o bell ac eraill yn mynychu wyneb yn wyneb. Mae hyn yn rhan o agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer moderneiddio Cynghorau ac nid mewn ymateb i Covid er, yn amlwg, am y tro bydd y cyfyngiadau Covid yn effeithio ar y modd y bydd cyfarfodydd hybrid yn gweithredu.
- 2.2. Mae'r ddogfen yn **Atodiad 1** yn cynnwys Protocol drafft sy'n nodi'r egwyddorion cyffredinol ynghylch sut y dylid cynnal cyfarfodydd hybrid ar yr adeg hon, pan fo cyfyngiadau Covid mewn grym o hyd a phan fo'r gofynion cadw pellter cymdeithasol yn golygu bod llai o gapasiti ar gael yn y Siambr/y Stafelloedd pwyllgor.

- 2.3. Mae'r ddogfen yn **Atodiad 1** yn Brococol gweithredol sy'n debygol o gael ei adolygu, yn enwedig yn ystod y cyfnod hyfforddi, profi, peilota a chyn roi ar waith. Bydd rhaid ei adolygu hefyd unwaith y caiff y cyfyngiadau eu llacio/codi. I adlewyrchu'r ffaith bod y sefyllfa gyfredol yn "gyfnewidiol" ceisir awdurdod dirprwyedig er mwyn osgoi'r angen i'r Cyngor llawn ailedrych ar y Protocol yn ffurfiol yn achos pob newid/diwygiad.
- 2.4. Unwaith y caiff yr holl gyfyngiadau eu codi, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor roi'r opsiwn i unrhyw/pob aelod fynychu rhai cyfarfodydd/pob cyfarfod o bell; os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Ni ellir mynnu bod aelodau'n mynychu'r cyfarfodydd hyn yn gorfforol. Fe all aelodau fynnu mynychu o bell.
- 2.5. Dylid nodi hefyd bod y Protocol yn dibynnu ar Ganllawiau Interim Llywodraeth Cymru ar Gyfarfodydd Aml-leoliad (cyhoeddwyd 4^{ydd} Awst 2021) felly, er nad yw'n debygol y bydd unrhyw newid sylweddol i'r Canllawiau terfynol, fe all effeithio ar sylwedd y Protocol drafft.

3. **CEFNDIR**

- 3.1. Yn dilyn y clo cyntaf, ym mis Mawrth 2020, cyflwynodd Lywodraeth Cymru Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd); er mwyn galluogi i Gyngorau gynnal cyfarfodydd rhithiol yn hytrach na chyfarfodydd wyneb yn wyneb.
- 3.2. Darparwyd cymorth a hyfforddiant gan y Gwasanaeth TG a'r Gwasanaethau Democrataidd er mwyn galluogi i aelodau a swyddogion fynychu cyfarfodydd yn rhithiol a pharhau â'r broses ddemocrataidd, i'r fath raddau ag oedd yn bosibl dan y cyfyngiadau. Mae holl gyfarfodydd a phwyllgorau'r Cyngor sydd yn agored i'r cyhoedd yn cael eu ffrydio'n fyw i'w gwyllo gan y cyhoedd ac mae recordiadau'n cael eu huwch lwytho wedi i gyfarfodydd ddod i ben.
- 3.3. O dan y Ddeddf, o'r 1af o Fai 2021 mae'n ofynnol i bob Cyngor gynnig datrysiad hybrid yn ystod pob un o'i gyfarfodydd a'i bwyllgorau. Er bod y gofyniad hwn bellach mewn grym, mae ei weithrediad yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau Covid. Er mwyn galluogi'r Cyngor i ddarparu datrysiad hybrid, mae gwaith yn mynd rhagddo gan y Gwasanaeth TG a'r Gwasanaethau Democrataidd i adnabod, caffael, profi, peilota a gweithredu'r systemau ar gyfer hwyluso cyfarfodydd hybrid, a'u gwe-ffrydio a'u cyfieithu. Mae cynllun yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ynghyd ag amserlen. Wedi hynny'r bwriad yw profi'r system yn drylwyr cyn cyflwyno cyfarfodydd hybrid yn ffurfiol cyn gynted â phosibl yn 2022. Byddwn yn datblygu modiwl hyfforddi a rhaglen beilota. Bydd y trefniant newydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar gadeiryddion pwyllgorau a bydd hyfforddiant penodol ar gael ar gyfer yr aelodau a effeithir.
- 3.4. Awgrymir bod ein bod yn canolbwyntio'n hadnoddau a'n capasiti ar gyfarfodydd/pwyllgorau'r Cyngor a, tra bo cyfyngiadau Covid yn dal i fod mewn grym, bod sesiynau briffio/cyfarfodydd anffurfiol a sesiynau hyfforddi/datblygu'n parhau i gael eu cynnal yn rhithiol. Mae'n fwriad cynnig y gweithgareddau hyn fel cyfarfodydd hybrid, unwaith y bydd gennym y capasiti i wneud hynny.

- 3.5. Bwriad y Protocol drafft yw darparu cyfarwyddyd i aelodau, swyddogion a'r cyhoedd ar y broses a ddilynir gan y Cyngor wrth gynnal cyfarfodydd hybrid tra bo cyfyngiadau Covid yn dal i fod mewn grym. Diogelu iechyd a lles aelodau/swyddogion yw'r brif flaenoriaeth ac mae'r Canllawiau cyfredol gan Lywodraeth Cymru'n awgrymu y dylai pobl weithio o'r cartref lle bo modd. Yn ogystal â hyn mae'n ofynnol cadw pellter cymdeithasol o hyd ac felly bydd llai o gapasiti o lawer yn yr ystafelloedd cyfarfod. Mae'r uchafswm a ganiateir hefyd yn cynnwys staff cynnal o'r Gwasanaethau Democrataidd, un neu ddau uwch swyddog o bosibl, ac felly mae hyn yn lleihau nifer y seddi sydd ar gael i aelodau.
- 3.6. Ni fydd fersiwn terfynol o'r Protocol drafft ar gael hyd nes y bydd wedi cael ei weithredu a'i brofi a hyd nes y bydd ffactorau penodol wedi cael eu hystyried megis sut y dylai aelodau ddangos eu bod yn dymuno siarad, pleidleisio ayb.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

PROTOCOL AR GYFER CYNNAL CYFARFODYDD CYNGOR / PWYLLGOR HYBRID

1. PWRPAS Y PROTOCOL HWN

- 1.1 Pwrpas y Protocol hwn yw darparu cyfarwyddyd i aelodau, ynghlŷn â'r prosesau i'w dilyn wrth gynnal cyfarfodydd y Cyngor/pwyllgorau ar ffurf hybrid.
- 1.2 Mae cyfarfodydd hybrid yn cyfuno cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a chyfarfodydd rhithiol, gyda rhai aelodau'n bresennol yn Siambr/ystafell bwyllgor y Cyngor ac eraill yn ymuno o bell.
- 1.3 Mae cyfarfodydd hybrid yn ofyniad statudol erbyn hyn ac mae gan yr aelodau'r hawl i fynychu o bell.
- 1.4 Mae'n ofyniad statudol, yn ystod cyfarfodydd hybrid, bod yr holl gyfranogwyr yn gallu gweld a chlywed ei gilydd a bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael.
- 1.5 O ganlyniad i'r cyfyngiadau Covid, dim ond nifer gyfyngedig o bobl gaiff fod yn bresennol, o bryd i'w gilydd, yn y Siambr/ystafelloedd pwyllgor yn unol â'r uchafswm diogel a nodwyd yn asesiadau risg y Cyngor.

2. EGWYDDORION CYFFREDINOL

- 2.1 Y sail statudol ar gyfer cyflwyno cyfarfodydd hybrid yw Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a diwygiwyd Cyfansoddiad y Cyngor yn unol â'r ddeddfwriaeth.
- 2.2 Am y tro bydd rhaid ystyried cyfarfodydd hybrid/presenoldeb wyneb yn wyneb gan aelodau, y cyhoedd a'r wasg ochr yn ochr â threfniadau'r Cyngor ar gyfer cael mynediad i adeiladau, y rheolau cadw pellter cymdeithasol, y disgwyliad bod pobl yn gweithio o'r cartref lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ac unrhyw gyfyngiadau eraill a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd.
- 2.3 I sicrhau bod gan y cyhoedd a'r wasg fynediad i gyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor, ac i sicrhau tryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau, bydd y cyfarfodydd yn dal i gael eu ffrydio'n fyw ar y pryd. Caiff recordiadau hefyd eu huwch lwytho ar

wefan y Cyngor fel cofnod cyhoeddus a bydd recordiadau ar gael i'w gwyllo am chwe mis o ddyddiad y cyfarfod.

- 2.4 Cymeradwyir cofnodion ac eitemau i'w nodi drwy eu cadarnhau yn ystod y cyfarfod. Mae hyn yn golygu y derbynnir eu bod yn gywir oni bai bod gwrthwynebiad penodol.
- 2.5 Cynhelir pob pleidlais arall drwy system bleidleisio a fydd ar gael i'r holl aelodau sydd yn bresennol yn y cyfarfod, boed hynny o bell drwy Zoom, neu wyneb yn wyneb.
- 2.6 Cyhoeddir y canlyniadau pleidleisio, o blaid, yn erbyn ac ymatal, gan y cadeirydd cyn symud ymlaen i'r eitem busnes nesaf.
- 2.7 Mae'r Protocol hwn wedi ei danategu gan yr egwyddorion sylfaenol y dylid ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad i Aelodau a chynnal uniondeb a diogelwch unrhyw wybodaeth eithriedig/gyfrinachol.
- 2.8 Yn olaf, gan gydnabod y cyfyngiadau, amcan y Cyngor yw sicrhau bod cyfarfodydd hybrid mor debyg â phosibl i arferion blaenorol y Cyngor a byddant yn dilyn y rheolau arferol yn y Cyfansoddiad, lle bo modd. Mae'r Aelodau eisoes wedi mabwysiadu'r Protocol ar gyfer Cyfarfodydd o Bell sy'n nodi addasiadau addas lle bo angen.

3. PROTOCOL AR GYFER CYFARFODYDD HYBRID

- 3.1 Bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfodydd hybrid drwy ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael yn Siambr y Cyngor a'r ystafelloedd pwyllgor, i alluogi i bobl fynychu cyfarfodydd a phwyllgorau'r Cyngor o bell neu wyneb yn wyneb.
- 3.2 Caniateir i aelodau gael mynediad i'r Siambr/ystafelloedd pwyllgor, o bryd i'w gilydd, drwy ddilyn y mesurau diogelwch sydd ar waith i gefnogi mynediad a defnydd diogel.
- 3.3 Cyn unrhyw gyfarfod, bydd y Gwasanaethau Democraidd yn sicrhau bod pob aelod, swyddogion perthnasol a chyfranogwyr eraill wedi cael gwahoddiad i ymuno â'r cyfarfod a'u bod yn deall sut i ymuno â'r cyfarfod yn ddigidol.
- 3.4 Am y tro, cynhelir yr holl gyfarfodydd Cyngor a phwyllgor yn y Siambr; er y bydd y cyfleusterau newydd ar gael yn yr ystafelloedd pwyllgor, yn barod i'w defnyddio unwaith y bydd y cyfyngiadau Covid wedi'u codi. Penderfynwyd defnyddio Siambr y Cyngor er mwyn galluogi i'r holl aelodau pwyllgor fynychu wyneb yn wyneb os ydynt

yn dymuno gwneud hynny; er bod gan bob aelod yr hawl i fynychu o bell os ydi hynny'n well ganddynt. Fodd bynnag, dim ond nifer gyfyngedig gaiff fynychu cyfarfodydd y Cyngor gan fod yr asesiad risg dim ond yn caniatáu uchafswm o 20 aelod yn y Siambr ar y tro. Cyfyngir nifer y swyddogion er mwyn caniatáu digon o le i unrhyw aelodau sy'n dymuno bod yn bresennol.

- 3.5 O safbwynt cyfarfodydd y Cyngor bydd rhaid i'r Arweinwyr Grŵp benderfynu, gyda'u haelodau, pwy sy'n ffafrio mynychu unrhyw gyfarfod wyneb yn wyneb. Bydd rhaid i'r Arweinwyr Grŵp hysbysu staff y Gwasanaethau Democrataidd i sicrhau y glynir yn llym wrth y niferoedd a ganiateir.
- 3.6 Defnyddir y meini prawf canlynol ar gyfer dyrannu seddi yn ystod cyfarfodydd y Cyngor :-
- Y Cadeirydd/Is-gadeirydd (i'w cynnwys fel rhan o gwota'r grwpiau os ydynt yn dewis mynychu wyneb yn wyneb)
 - Y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
 - Yr uwch swyddog arweiniol
 - O safbwynt aelodau eraill o'r Cyngor defnyddir cydbwysedd gwleidyddol yn seiliedig ar y niferoedd a ganiateir yn unol ag unrhyw asesiad risg cyfredol, nifer yr aelodau Cyngor sy'n dymuno mynychu wyneb yn wyneb a chydbwysedd cyffredinol y Cyngor.
- 3.7 Os oes cworwm, bydd unrhyw gyfarfod yn mynd rhagddo, hyd yn oed os oes unrhyw aelodau heb lwyddo i gysylltu. Os bydd aelod yn cyrraedd yn hwyr, dylent roi gwybod i'r cadeirydd ar unwaith a gwneud sylwadau a phleidleisio ar eitemau agenda cyflawn yn unig. Gellir gwneud hyn drwy'r cyfleuster sgwrsio (chat) ar Zoom.
- 3.8 Wrth fynychu o bell, rhaid i'r aelodau sicrhau eu bod yn aros ar-lein drwy gydol y drafodaeth, a'r bleidlais, er mwyn cynnal gonestrwydd y broses o wneud penderfyniadau a lleihau'r siawns o her gyfreithiol i unrhyw benderfyniad. Os oes rhaid i aelod adael y cyfarfod dros dro, dylent sicrhau bod y fideo wedi'i ddiffodd ac anfon neges drwy'r cyfleuster sgwrsio yn Zoom e.e. "Rhaid i mi adael am 5 munud" a "Dwi'n ôl". Mae hyn yn efelychu'r sefyllfa yn Siambr y Cyngor neu'r ystafelloedd pwyllgor pan fydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn nodi gweithgarwch o'r fath.
- 3.9 Wrth fynychu o bell, rhaid i aelodau ac unrhyw gyfranogwyr sicrhau bod yr ystafell y maent ynddi yn ddiogel, bod y drws i'r ystafell ar gau ac nad oes dim byd yn ymyrryd ar y cyfarfod gan ei bod hi'n bwysig sicrhau rhywfaint o ffurfioldeb yn ystod cyfarfodydd. Cynghorir aelodau i eistedd y tu ôl i gefndir niwtral neu ddefnyddio cefndir 'corfforaethol' addas.

- 3.10 Wrth fynychu o bell, fe ddylai aelodau fod ar eu pen eu hunain. Ni chaniateir i unrhyw un arall fod yn bresennol yn yr ystafell y mae'r aelod yn ymuno â'r cyfarfod ohoni.
- 3.11 Pe byddai aelod yn datgan budd personol neu ragfarnus mewn perthynas ag eitem benodol ar yr agenda, er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer yr Aelodau byddant yn cael eu tynnu o'r cyfarfod gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a'u rhoi yn yr 'ystafell aros' yn ystod yr eitem berthnasol. Mae gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd hefyd yr hawl i dynnu eraill sydd yn bresennol, megis siaradwyr cyhoeddus, neu aelodau'r cyhoedd o'r cyfarfod wedi i'r aelodau bleidleisio i symud i sesiwn caeedig i drafod busnes eithriedig. Pe byddai aelod sy'n bresennol yn y cnaud yn datgan budd personol neu ragfarnus, disgwylir iddynt adael yr ystafell yn ystod yr eitem; yn unol â'r drefn arferol.
- 3.12 Yn ystod y cyfarfod, os nad yw'r aelod yn siarad, gofynnir iddo ef/hi sicrhau bod y microffon wedi'i ddiffodd a'i droi ymlaen unwaith y byd y cadeirydd yn gwahodd yr aelod i siarad. Gofynnir i aelodau osgoi rhoi'r sain yn rhy uchel, eistedd yn rhy agos i'r microffon, bod â dyfeisiadau electronig eraill ar agor yn ystod y cyfarfod neu symud papurau wrth y microffon, gan y gall yn achosi sŵn, a chreu problemau i'r cadeirydd a'r aelodau eraill. Anogir aelodau'r Cyngor/pwyllgor i gadw eu camerâu ymlaen drwy'r amser er mwyn i'r cyhoedd eu gweld drwy gydol y trafodaethau a'r pleidleisio. Fodd bynnag, os ydi'r cyswllt yn wael, derbynnir y bydd yn rhaid i'r aelod ddiffodd y ffrwd fideo.
- 3.13 Disgwylir i'r cyngor chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau trefn wrth gynnal unrhyw gyfarfod/pwyllgor o'r Cyngor. Caiff cadeiryddion eu cefnogi'n llawn gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, swyddog arweiniol y cyfarfod, i alluogi'r cadeirydd i gynnal y cyfarfod yn unol â'r Rheolau Trefniadol (Rhan 4.1 yng Nghyfansoddiad y Cyngor) ac egwyddorion y Protocol hwn.
- 3.14 Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y cadeirydd yn sicrhau bod y system yn caniatáu i bawb gymryd rhan. Bydd y cadeirydd hefyd yn:
- cyflwyno'i hun, aelodau'r Cyngor/pwyllgor, swyddogion sydd yn bresennol ac unrhyw gyfranogwyr eraill, er mwyn sicrhau bod y rheiny sydd yn gwylio neu'n gwrando yn deall y gwahanol rolau a chyfrifoldebau.
 - atgoffa ynghylch trefniadau'r cyfarfod (yn cynnwys materion technegol)
- 3.15 Oherwydd natur cyfarfodydd hybrid, bydd y cadeirydd yn defnyddio'i r(h)yddid llwyr wrth benderfynu ym mha drefn y caiff yr aelodau gyfle i gyfrannu i'r drafodaeth ar unrhyw eitem. Bydd y cadeirydd yn sicrhau bod pob aelod yn cael cyfle i gyfrannu i'r cyfarfod, yn unol â'r Rheolau Trefniadol.

- 3.16 Bydd y cadeirydd yn caniatáu i swyddogion siarad, os ydynt yn dangos eu bod yn dymuno gwneud hynny.
- 3.17 Mewn perthynas ag adroddiadau eithriedig, gofynnir i aelodau bleidleisio ar weithredu'r eithriad yn gyntaf. Os caniateir eithrio adroddiad, yna rhaid i'r aelodau sicrhau eu bod yn glynu'n llym wrth baragraffau 3.10 a 3.11 uchod. Bydd y ddolen fyw ar gyfer y cyhoedd yn dod i ben cyn i'r eitem gychwyn ac mae'n bosib y bydd bwlch yn y cyfarfod i sicrhau nad ydi'r eitem yn cael ei recordio. Bydd rhaid i unigolion heb ganiatâd i fod yn bresennol yn ystod yr eitem adael y Siambr/ystafell bwyllgor, a byddant yn cael eu tynnu o'r cyfarfod rhithiol gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd. Ni chaiff yr un aelod ffilmio, dynnu llun na gwneud recordiad sain yn ystod unrhyw ran o'r cyfarfod sy'n berthnasol i'r busnes eithriedig.
- 3.18 Os bydd unrhyw aelod yn colli cysylltiad wrth ymuno o bell, a bod hynny'n golygu nad oes cworwm, bydd yn rhaid i'r cadeirydd aros tan y gellir ailgysylltu â'r aelod, os yw hynny'n bosibl. Os nad yw hynny'n bosibl yna ni fydd y cyfarfod â chworwm ac felly bydd rhaid ei ohirio tan ddyddiad arall.
- 3.19 Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â siaradwyr cyhoeddus cyn y cyfarfod, er mwyn gweld a ydynt yn dymuno mynychu wyneb yn wyneb neu o bell. Bydd yn rhai sydd yn ymuno o bell yn cael dolen i ymuno â'r cyfarfod. Gwahoddir siaradwyr cyhoeddus i ymuno â chyfarfod pan fyddant yn yr 'ystafell aros' ond bydd rhaid iddynt ddiffodd y microffon hyd nes y'i gwahoddir i siarad gan y cadeirydd. Bydd y cadeirydd yn gwahodd pob siaradwr i ddechrau eu cyflwyniad ar yr adeg briodol. Dylid dilyn Protocol Siarad Cyhoeddus y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, ynghyd â Phrotocol Siarad Cyhoeddus y Pwyllgor Sgriwtini, fel y bo'n briodol.
- 3.20 Ni fydd y wasg yn derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd gan fod pob cyfarfod cyhoeddus yn cael ei ffrydio'n fyw erbyn hyn. Dyma fesur dros dro hyd nes y bydd y cyfyngiadau Covid wedi'u codi a bryd hynny caniateir i'r wasg a'r cyhoedd fynychu yn unol â'r drefn arferol.